

954)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.

Yr Hen Gapel,Pencader : Ionawr/January 19th 2015---7.30pm.

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:

Val Davies	Glyn Jones	Raymond Lewis
Eirian Jones	Marc Jones	Keith Lewis
Annette Davies	Melfyn Evans	C.Sir Linda Evans
Sian Thomas	Yvonne Griffiths	

Clerc:	Anita Evans
Ymddiheuriadau:	Haulwen Lewis,Lynn Evans
Absennol:	neb
Cyfieithydd:	Susan Roberts
Ymwelwyr:	PCSO Eleri Bonning,N.Jones,M.Davies,Lyn Morris

Cadeiriwyd gan Val Davies.Cafwyd gair gan PCSO Eleri Bonning i ddechrau.Dyweddod fod pethau wedi bod yn eitha tawel,ond ym mis Rhagfyr cafodd llosgwr coed ei ddwyn o dŷ gwag yn ardal Alltwalis,ac olew o danc allanol tŷ yng Ngwyddgrug.Gofynnodd Melfyn Evans a oedd ryw hanes am y car ar dro Gwyddgrug yn dilyn damwain,ond does dim.Clerc yn gofyn i'r PCSO a all yr Heddlu wneud rhywbeth am y gŵyn a dderbyniom am y ceir sy wedi parcio ar ochr yr hewl ar safle Hen Swyddfeydd y Cyngor ym Mhencader.Dydy John McEvoy ddim yn gallu helpu am fod ddim llinellau melyn ar yr hewl.Y gŵyn oedd fod blaen y ceir yn mestyn mas i'r ffordd fawr.Diolchwyd i'r swyddog cyn iddi adael.Meeting was chaired by Val Davies.PCSO Eleri Bonning was welcomed,and said things were quiet on the whole.In December a log burner was stolen from an empty house in the Alltwalis area,and oil from an outside tank in Gwyddgrug.Melfyn Evans asked if there was any information regarding the car which is in the hedge on the Gwyddgrug bend following an accident,but there is no news.The Clerk asked if the Police could visit the garage on the old Council Offices site in Pencader,following a complaint received by this Council that parked cars are protruding onto the main road.The Highways Dept.can't help as there are no double yellow lines on the road.The PCSO was thanked before she left the meeting.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod,ac i Susan Roberts a oedd wedi dod i gyfieithu i ni am y tro cyntaf.Cafodd y cyhoedd gyfle i siarad.Roedd Norma Jones am ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r Cyngor,ac fe ddiolchodd yn fawr i'r Cynghorwyr,ar ran yr ymwelwyr, am eu gwaith da yn ystod y flwyddyn. The chairman welcomed all to the meeting,and to Susan Roberts who had come to translate for us for the first time.Norma Jones wished everyone a Happy New Year,and thanked the Councillors,on behalf of members of the public, for their hard work during the past year.

955) 1) Cofnodion mis Rhagfyr: cyn eu cofnodi'n gywir cyfeiriodd Annette Davies at gamgymeriad yng nghyfieithiad Glantweli Fach—yn y Saesneg mae'n Glantweli "Fawr."Cynnigiodd Raymond Lewis fod gweddill y cofnodion yn gywir,ac eiliodd Yvonne Griffiths.

Materion y Clerc o'r cofnodion/Clerk matters from previous minutes:

1)e-bost wrth Gary Carlsen ynghlŷn â llwybr Glanawmor Isaf/Gary Carlsen's reply re.Glanawmor Isaf path.

"My understanding is that the footpath is on the main access track to the farm and therefore would not expect livestock to be grazing on the track. I would expect the stock to be in the fields, some of which would be adjacent to the track but with field gate to access the fields. The public would have no right of access into those fields and therefore no reason to open those gates.

If the stock are grazed on the track or moved along the track between the farmyard and the fields then if Mrs Bushin is concerned that the stock will escape onto the main road during the movements then she can apply to erect gates on the track to prevent the escape. If she were to do this but fearful that walkers may leave those gates open then she is within her rights to lock the field gates providing there is a pedestrian gate alongside that the public can use. These are all standard livestock management practices where there is public pedestrian access rights."

GSCarlsen, Snr Public Rights of Way Officer.

Trafodwyd,gan nodi nad y broblem yw'r anifeiliaid ar y caeau,ond y defnydd a wneir o glos y fferm,a'r ffaith fod yr anifeiliaid ar y clos ar nifer o achlysuron.Yn ystod yr haf,mae plant yn cerdded drwy'r clos.Efallai y digwydd hyn pan fod anifeiliaid ar y clos yn cael prawf TB,ymweliad mil-feddyg,eu symud i leoliad arall ac ati.Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn gwahodd Mr.Carlsen allan i'r llwybr,ac fe eiliodd Yvonne Griffiths.Ymhellach,cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn llythyr gyda Mrs.Bushin i'w hysbysu o farn y Cyngor yma,ac eiliodd Marc Jones.Re the above e-mail from the County Council,there was a discussion,and noted that the stock in the fields are not a problem,it is when they are on the farmyard for different reasons e.g.TB testing,vet inspection,moving to different fields are our concerns.Eirian Jones proposed that we invite Mr.Carlsen out to site,and Yvonne Griffiths seconded.Furthermore,Eirian Jones proposed that we inform Mrs.Bushin of our correspondence,and Marc Jones seconded.

2)Cyfleusterau Cyhoeddus—Mae Rhys Davies o G.Sir Gar wedi anfon e-bost i ddweud fod safleoedd Pontweli a Phencader yn/wedi cau wythnos 14/01/15.Bydd yn cysylltu yn fuan ynghlŷn â safle Alltwalis.The Public Conveniences at Pencader and Pontweli closed last week.

3)Cornel Chwarae:-Clerc wedi cysylltu ag Ian Edwards eto,ar ol iddo ddweud fod yr arolwg wedi ei gwblhau,ond heb glywed oddiwrt h y contractiwr.According to Ian Edwards of the County Council, inspection of our Play Area has been carried out,but no update has been received.The Clerk will follow it up.

4)Hyfforddiant ar y Gyfraith—Neuadd San Pedr 19/02 (6.30 hyd 9yh).Bodlonodd Val Davies ac Eirian Jones fynychu.Training on the law –Val Davies and Eirian Jones will attend.

5)Seminar Cynllunio: yng Nghwesty'r Llwyniorwg 13/02 i ddechrau am 9.45 y bore.Bydd Eirian Jones yn mynd.Eirian Jones will attend a seminar on planning matters.

6)Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2015—yn dilyn y Clerc yn e-bostio'r Cynghorwyr ynghlŷn â'r ddogfen hon,gofid Eirian Jones yw nad yw'r ffordd o Gaerfyrddin i Synod Inn ar y map,ac mai hon yw'r cyswllt bwysig rhwng Ceredigion a'r M4.Dydy'r ffordd yma heb ei gwella—mae'r ffyrdd eraill wedi cael sylw mawr.Cynnigiodd Eirian Jones ddrafftio llythyr ar ran y Cyngor yma,ac eiliodd Marc Jones.Correspondence received on the Draft National Transport Plan— Eirian Jones expressed his disappointment that the stretch of road in our Parish from Alltwalis to the dual carriageway in Pontweli is the only part not upgraded.This is a very important link in the route from Ceredigion to the M4.He offered to write a draft letter to the Assembly,and Marc Jones thanked,and seconded the offer.

956)Materion/Clerk Matters:

7)Arwydd “dim cerbydau trwm”—yn dilyn ein cais i John Mc.Evoy am yr arwydd ar ben hewl Glantweli Fach,bydd e’n dod mas i’n cwrdd i drefnu lleoliad.John McEvoy will meet on site to find a suitable position for the signage.

8)Gwefan y Cyngor:--ar ol i’r Clerc gysylltu â Solid Designs dros y ffon,cafodd wybod nad yw’r Cwmni yn medru creu gwe-fan i ni.Mae wedi ffonio cwmni yng Nghastell Newydd Emlyn ar ein rhan,ac mae’r rheiny yn gallu gwneud.Cynnigiodd Eirian Jones ein bod yn cysylltu â nhw,ac eiliodd Raymond Lewis.Following information from Solid Designs that they can’t create a web-site for us,the Clerk will contact Webs Wonder Design in Newcastle Emlyn,on the recommendation of Solid Designs.Eirian Jones proposed and Raymond Lewis seconded.

2) Ariannol/finacial: cafwyd yn gywir:Keith Lewis yn cynnig,ac Annette Davies yn eilio.Biliau i’w talu:cyflogau arferol;Trywydd(translation)£56.40;PAYE £177.60.Cynnigiodd Raymond Lewis fod rhain i’w talu,ac eiliodd Glyn Jones.

3)Cynllunio/Planning:

1)W/31099---twrbein gwynt ar dir Y Wern,Pencader—cafwyd gwybodaeth fod ymweliad safle wedi bod 13/01/15.A site visit has been.C.C.Linda Evans explained that a judicial review on this application is taking place.She then left the room.Ni chymerodd C.C.Linda Evans ran mewn trafod materion cynllunio.

2)W/30998—estyniad/toilet extension at Farmers’Arms,Pencader,for Andrew Gordon----GRANTED.

Newydd/new 3)W/31329---adeilad newydd yn lle’r hen un/replacement existing building with new,modern building at Maeslan,Alltwalis for Mr.A.Saunders.

4)W/31388----discharge of conditions---Pantfen Uchaf,Llan’el ar arth for Mr.John Edwards.

Doedd dim gwrthwynebiad/no --one opposed the above.

4)Gohebiaeth/Correspondence: Cyngor Sir Gar/C.County Council:

a)Gwelliant ar gyffordd A485/U5502,Hewl Llwynwallter,Alltwalis.Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod mis Chwefror,ac yn cymeryd tua 3 wythnos.Junction improvement—Llwynwallter Rd.Alltwalis—improvements will start in February.

b)Cynllun Datblygu Lleol/LDP—details on the County Council’s web-site.

c)Côd Ymddygiad—nodi bod rhaid cynnwys” Datgan Buddiannau” ar yr agenda.Mae’r Cyngor yma’n cyd-ymffurfio â hyn yn barod.Code of Conduct—recommending that “Declaration of Interest”be placed toward the beginning of the agenda.This Council follows this good practice.

ch)Ysgol Cae’r Felin---eisiau aelod o’r Cyngor yma i gynrychioli’r Cyngor ar y bwrdd llywodraethwyr.Cynnigiodd Marc Jones enw Yvonne Griffiths,eiliodd Annette Davies,a chytunodd Mrs.Griffiths i eistedd ar y bwrdd.Yvonne Griffiths will represent the Community Council on the board of governors at Ysgol Cae’r Felin.

957)Gohebiaeth/Correspondence:

d)E-bost oddiwrth Meinir Davies yn dymuno gweld copi o Reolau'r Cyngor ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor yma.Cynnigiodd Eirian Davies ei bod yn iawn i'w dangos ac eiliodd Keith Lewis.A request from Meinir Davies asking to see a copy of this Council's rules regarding public presence in meetings(part of our Standing Orders).Eirian Jones proposed that this is acceptable and Keith Lewis seconded.The particular paperwork will be available next meeting.

dd)E –bost oddiwrth Jennifer Harrison yn datgan ei gofidiau am y ffordd mae RWE wedi bod yn clirio'r tir ar gyfer creu Fferm Wynt Gorllewin Brechfa.Mae'n teimlo eu bod wedi torri'r coed mewn dull ansensitif,ac yn gadael llawer o wastraff.Hefyd mae'n gofidio am y trac newydd.Mae Eirian Jones,Annette Davies a Raymond Lewis wedi bod lan i weld y tir(nodir o safbwynt bersonol)ac yn dweud eu bont yn cydymdeimlo;does dim llawer all y Cyngor Cymuned ei wneud.Cynnigiodd Annette Davies fod llythyr yn mynd o'r C.Cymuned at Bethan Edwards (RWE),a Richard Jones(Adran Gynllunio C.Sir Gar)ji dynnu eu sylw.Eiliodd Raymond Lewis.An e-mail has been received from J.Harrison expressing her concerns at the way RWE has been felling trees,at the site of Brechfa Forest West Wind Farm,and the devastation they have left.There are also concerns regarding the track to the site.Eirian Jones,Annette Davies and Raymond Lewis have been to the site(in a personal capacity)and sympathise with the complainant.It is felt that this Council can't do anything at this stage,but Annette Davies proposed that a letter be sent to Bethan Edwards(RWE)and Richard Jones (C.County Council-planning)drawing their attention to these concerns.Raymond Lewis seconded.

e)Bwrdd Iechyd Hywel Dda/Health Board---list of workshops' locations.

f)Llythyr oddiwrth N.Marriott,Gwynfryn yn tynnu ein sylw fod sbwriel/rwbel wedi eu gadael yn ei chlawdd hi ar ôl clirio'r ffordd.Letter from Gwynfryn regarding rubble left in the property's hedge.The Clerk will forward a copy of the letter to Tony Williams,Street Scene C.County Council,requesting prompt action.

ff)Llythron o ddiolch/thankyou letters for donations from Eisteddfod Llanfihangel/PIDA.

g)Cyfreithwyr JCP—ad –daliad o £26.00 ar ol cau ffeil Hawl Tramwy Capel Troedyrhiw Alltwalis.

ng)Comisiynydd yr Heddlu—eisiau sylwadau ar ei gynnigion i leihau'r defnydd o gamerau cylch cyfun.Mae'r Cyngor yma'n gwrthwynebu'n gryf tynnu unrhyw gamra i ffwrdd,oherwydd maent yn arf dda i atal troseddau.Bydd llythyr yn cael ei anfon at y Comisiynydd yn datgan hyn.Police Commissioner for the Dyfed Powys Force—is in discussions to review the use of publicly funded CCTV.This Council feels strongly that all CCTV should be retained,as they are very helpful in crime prevention,and a letter stating this will be sent to the Commissioner.

h)Bwcabus—amserlen/timetable.

5)U.F.Arall/A.O.B—gwybodaeth/information only:

Melfyn Evans—eisiau glanhau draeniau New Inn ar hyd y ffordd fawr;mae coeden wedi cwmpo,a'i gadael yn y clawdd ar bwys Fferm Milestone.Drains in New Inn need to be cleared.

Annette Davies—dweud pa mor dda yw'r safle ail-gylchu gwydr;twll ar y ffordd rhwng Croesmaen a Dolmaen.States that the new recycling site in Pencader is very good;reported a hole in the road between Croesmaen and Dolmaen.

Eirian Jones—sbwriel ar bwys Glanina(hewl Gwyddgrug i Bencader)/rubbish near the property;mae angen trafod seddau y tro nesa/we need to discuss parish benches next meeting.

Keith Lewis—draeniau hewl Dolgran angen sylw/drains on the Dolgran road need clearing.

958) U.F.A./AOB. Contd.

Sian Thomas---dŵr yn rhedeg o dop rhiw Alltwalis, peryglus pan mae rhew; sbwriel wedi ei daflu tu fewn iet fach Mynwent Troedyrhiw; twll ar yr hewl ar bwys Brynsaeson. Water runs down Alltwalis hill—dangerous when there is a frost; rubbish has been thrown over the small gate into Troedyrhiw Cemetery; hole in the road near Brynsaeson (Gwyddgrug/Windy Corner road).

Raymond Lewis---arwydd 20m.yr awr ochr draw Tabernacl—mae'r cylch gyda'r 20 yn cwmpo lawr y polyn/the 20mph sign opposite Tabernacle Chapel—the circular sign is falling towards the bottom of the pole.

Glyn Jones—mae sbwriel ar draws ffyrdd ein plwyf i gyd; draeniau ar bwys Tabernacl ac ar hewl Glantweli Fach angen sylw; is concerned about the rubbish strewn across all the roads in our Parish; drains near Tabernacle Chapel and the Glantweli Fach road need attention.

Clerc—wedi cael cwyn ynghlŷn â chyflwr gwael hewl seit Maesderwennydd, a'r stad wael mae'r walydd yno. Inhabitants of Maesderwennydd are complaining about the bad state of repair of their road, and the walls around the houses.

6) Trafodwyd y Gyllideb am 2015-16 o dan Rheolau Sefydlog/the Budget for 2015-16 was planned under Standing Orders:

a) Mynwent y Plwyf, Pencader---cynnigiodd Keith Lewis ein bod yn gwella safon y cyfleusterau ar y safle. Eiliodd Raymond Lewis. Mae angen peintio'r sied. Dywedodd Melfyn Evans bod eisiau gwneud pethau'n rhwyddach i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn—falle llwybr arall i gyd redeg â'r un presennol.

Amcan gost y gwelliantau yma-----£10,000.00

Up dates are needed at the Parish Cemetery—at the toilets, and perhaps a new path for wheel chair users.

Approx. spending:-----£10,000.00

b) Seddau'r Plwyf---gwariant £5,000.000/Parish benches---£5,000.00

c) Cyrsiau /hyfforddiant i Gynghorwyr/Councillor training---£600.00

ch) Cornel Chwarae/Play Corner-----£3,000.00

d) Blodau i'r cafnau/flower planters---£300.00

dd) Cyfleusterau Cyhoeddus Alltwalis/toilets-----£1,000.00 plus insurance(?)

e) Ysiwriant/insurances---up to £2,000.00

f) Apeliadau/appeals from charities:lan i/up to £1,000.00

Dywedodd Melfyn Evans fod angen golau ar bwys Y Blossom yn New Inn/new light needed by Blossom New Inn.

